

Yr unig rhesymeg foddhaol dros ddatganoli yw ffyniant democratiaeth. Y nod yw trosglwyddo'r grym democrataidd i ddwylo'r bobl, er mwyn sicrhau rhyddid i fyw yn llawn i'r unigolyn a'r gymuned. O reidwydd, ymestyna'r egwyddor syflaenol hon i bawb, heb eithrio iaith, na lliw, na hanes - ym mhob cwr o'n daear, ym mhob cornel o Gymru.

Nid hawdd diffinio'r rhanbarthau daearyddol y gellid eu hystyried yn unedau gwleidyddol cymwys wedi'r datganoli. Cyfrana ystyrieithau naturiol a dynol ill dau at y dewis. Yng nghyswllt "Cymru", dengys tirwedd, hanes a diwylliant neilltuol ein gwlad fod yna rhesymau i'w phenu fel uned wleidyddol i'r unfed ganrif ar hugain. Ond cydbwys yw'r datblygiadau llywodraethol Cymreig (fel Y Swyddfa Gymreig) a'r llu o ystadegau etholiadol gwrth-Doriaidd yng Nghymru dros y ganrif ddiwethaf. A pwy fuasai cyn ddewred a mynu, er enghraifft, y dylai Croesoswallt fod y tu allan i'n gwlad, a Threfynwy y tu mewn iddi?

Pa swyddogaeth i'r Cymraeg eu hiaith yn yr ymgyrch am hunan-lywodraeth? Rhaid cofio, mai datganoli y dylem er wir les y mwyafrif (o leiaf!) yng Nghymru. Dim dwywaith fod ambell Gymro Cymraeg wedi chwarae rhan blaenllaw hyd yn hyn, yn llosgi icon "Cymru" i feddylfryd rhai ohonom, beth bynnag.

Digon rwydd ymguddio mewn cwmwl o Gymreictod Cefn Gwlad; anos o lawer ymdopi a realiti Cymru ar drothwy'r unfed ganrif ar hugain. Mae cwlwm a chywydd yn llai na dim i'r mwyafrif o Gymry 1997. Faint o'r Cymry di-Gymraeg, tybed, sy'n ofni datganoli oherwydd ymddygiad "brawychus" y Cymry Cymraeg at y pwnc? Pa bryd y mae cenhedlaetholdeb iachus yn troi'n hiliaeth ffaidd?

Edrychwch o'ch cwmpas ar wledydd bach Ewrop! Cydlynu'r goreuon o bob maes (ac o bob tras) sydd angen i lywio a lliwio Cymru fydd. Nid parhad yr iaith yw llygad y ffynon, ond cymdeithas aeddfed, hyderus a edrych i'r dyfodol, o fudd i bawb ohonom. Ac wrth gwrs, yn rhanu yn llewyrch y llwyddiant daw dyddiau disglair i'r Gymraeg a'r Pethau.

Y cam hanfodol nesaf yn natblygiad democratiaeth yng Nghymru yw datganoli. I'w wireddu, y mae iaith, diwylliant a thraddodiad yn bwysig. Ond mil-gwaith pwysicach saif cydraddoldeb, goddefgarwch a rhyddid i fyw.